

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Gorffennaf 16deg - 2014
am 7.30 o'r gloch.

1. Presennol - Cynghorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Gill Cheverton (Is – Gadeirydd (GC), Geraint Parry (Clerc), Carwyn Jones (CJ), Alwena Roberts (AW), Lewis Davies (LD), Rhian Hughes (RH), Dafydd Pritchard (DP), Alwyn Rowlands (AR), Paul Gash (PG) a Maldwyn Williams (MW)

2. Ymddiheuriadau - dim.

3. Datgan Ddiddordeb

Cyng. L Davies a D Pritchard ar apêl cais 22C211C Yr Orsedd.

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed o Fehefin fel rhai cywir gan Cyng. D Pritchard, eilio gan Cyng. G Cheverton.

Agorwyd y cyfarfod gan fynd yn syth i drafodaeth Galw Oer gan Alison Farrar – pwynt 11.10.

Aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 **Fynwent Llanddona** - i gael ei drafod ar raglen teledu 28/10.

5.2 **Llwybr Tai Bach** - CJ wedi gofyn i'r Cyngor Sir am ddiweddariad ar y mater hwn, ac wedi deall bod y Swyddog yn absennol o'i waith hyd at Hydref 2014. Ar ddeall fod swyddog arall yn edrych ar y mater. Penderfynwyd anfon llythyr ymlaen i Mr R P Jones wrth ofyn am ddyddiad gwblhau. Mater yn mynd ymlaen ers tua 4 mlynedd.

5.3 **Difrod ar y Traeth** - LD wedi codi'r mater gyda PCSO lleol. Arwyddion wedi cael ei bwrcasu. PG yn adrodd fod y Warden a rhai o'r perchnogion tir yn eu caniatáu i gampio yno. Clerc i gysylltu ar Harbwr Feistr.

5.4 **Gwasanaeth Cymdeithasol, adeiladu cymunedau** - cyfarfod nesaf 29/07/14 yn Neuadd Llandegfan. LD yn teimlo fel rhan o weithio gyda'r cymunedau, ddylai'r Cyngor Sir ystyried rhoi'r Ysgol i'r gymuned. Ysgol yn cau 1/08/14. AR - mae mwy o waith yn dod ar ysgwyddau Cynghorau Tref a Cymunedol, felly mae rhaid i'r Cyngor Sir ymgynghori a'r gymuned. Wedi trefnu bod swyddog yn gwrdd â phwyllgor y Neuadd i ganfod pam oedd y grant yn anflwyddianus. RH - nid i'w Pwyllgor y Neuadd wedi penderfynu'r ffordd ymlaen eto. Dilyn trafodaeth, penderfynwyd gwahodd swyddogion perthnasol o'r Cyngor Sir i gyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned a Pwyllgor y Neuadd ar 28/07/14 am 7.30 o'r gloch i drafod y mater. Clerc i weithredu.

5.5 **Cadw Biniau yn Ponc y Felin** - LD dal i roi pwysa ar y Cyngor Sir.

5.6 **Cerrig ger Llain Gron** - dim wedi derbyn ymateb i ein llythyr. Cyng. L Davies i ddilyn hyn i fyny.

5.7 **Maes Canmlwyddiant** - Clerc wedi anfon y cais ymlaen i'r Cyngor Sir, disgwyl ymateb.

5.8 **Cloddiau Castell Tirion a tan Ffordd Uchaf** wedi ei dorri.

6. Adroddiad gan y Cynghorwyr

LD – yn siomedig iawn gyda'r Cyngor Sir ddim yn rhannu gwybodaeth, enwedig bod Neuadd bentref Llansadwrn wedi ei werthu.

LD - wedi cael nifer o gwynion bod y ffyrdd lleol angen ei dorri. Gwaith o dan sylw.

LD – cais Cae Maes Mawr wedi ei wrthwynebu.

AR - adroddiad positif gan y Llywodraeth Cymru ynglŷn â pherfformiad y Cyngor Sir.

7. Ceisiadau Cynllunio

- Apêl cais 22C211C - Cais llawn i godi twrbin gwynt gydag uchder hwb hyd at 25m, diamedr rotor hyd at 19.24m ac uchder blaen unionsyth fertigol hyd at uchafswm o 34.37m ar dir Yr Orsedd - penderfynwyd anfon ymlaen sylwadau uchwanegol trwy wefan erbyn 25/07/14.

Er gwybodaeth

- 22C219 Cais llawn ar gyfer dymchwel yr ystafell haul presennol ynghyd ag addasu ac ehangu yn Pant y Grug, Llanddona - wedi ei caniatáu.

8. Tir Comin

Clerc wedi cyfarfod cyfreithiwr blaenorol gyda Gerallt Jones (Menter Môn) ac wedyn cyfarfod gyda'n cyfreithiwr. Disgwyl nawr am y gwaith papur oddiwrth RG Roberts.

Hefyd wedi trafod gyda'r cyfreithiwr cais Mr Warland i gael hawlfraint dros y tir comin i osod peipen dwr dros dir comin hyd at safle ger Glan Gors.

9. Cyfrifon - cytunwyd i dalu:-

- Ysgol Gynradd Llanddona – hurio ystafell mis Gorffennaf - £20.00
- G Pritchard – torri llwybrau Penhwnllys Uchaf a Parc Wern - £220.00
- Rhodd i Côr Cymuned Llanddona - £300.00
- Playsafety, arolwg Maes Chwarae plant - £78.00

10. Gohebiaeth

Llythyr – Cyngor Sir, hyfforddiant Cod Ymddygiad
e-bost – Carwyn Jones, Llwybr Tai Bach
e-bost – Cyngor Sir, Llwybr Ponc y Felin
e-bost - Mathew Parry
e-bost - Edward Evans, côr Llanddona

11. UFA:

- 11.10 Galw Oer - Alison Farrar, Adran Safonau Masnach, Cyngor Sir - yn egluro'r sefyllfa am droseddau yn y drws, a bod masnachwyr twyllodrus yn gweithio ar yr Ynys. Yn gyntaf mae angen sefydlu pa mor fawr yw'r broblem trwy gasglu tystiolaeth bod galw oer yn mynd ymlaen. Ffordd gwneud hyn ydi trwy rannu posterï, sticerï a holiaduron, wedyn coladu'r wybodaeth a threfnu cyfarfod cymunedol. Mae angen o leiaf mwyafrif o 66% i'r cynllun fynd ymlaen. Syniad i'w i greu ardal Galw Oer dros Landdona, Llangoed a Penmon. Cynllun fel hyn yn llwyddiannus iawn yn Llandegfan, Llanfairpwll a Cae Mair, Biwmares. Mae mwy o fanylion ar "Facebook" y Cyngor Sir. Cadeirydd yn diolch i Alison am fynychu.
- 11.11 Wedi derbyn e-bost gan M Parry, contractwr ar gyfer Cae Maes Mawr. Wedi dechrau cwmni newydd ac yn siomedig bod y cais wedi ei wrthod. Oedd yn gobeithio gwneud gwaith ar y safle yma.
- 11.12 Cais "Tidy Towns" gan Simon Hunt ddim yn llwyddiannus. Awgrymodd bod ni creu grŵp gwirfoddolwyr yn y Pentre'. Mae cymaint o gwynion gyda chôr dyfiant. Penderfynwyd trafod y mater yma ymhellach. PG – pam nad ydym yn creu ymddiriedolaeth i ofalu am y tir?
- 11.13 Arolwg Maes Chwarae Llanddona – pob eitem ar y maes chwarae wedi sgorio risg isel.
- 11.14 RH - wedi cael cais am safle bws arall yn y pentre. Nid oes safle o'r Neuadd lawr i Gorslwyd.

12. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.50 o'r gloch.

Penderfynwyd trefnu cyfarfod ar 28/07/14 am 7.30 yn yr Ysgol, er mwyn cael trafod dyfodol yr Ysgol.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad